



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2018–19

Rhagfyr 2019

**YMATEB GAN LYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD BLYNYDDOL
COMISIYNYDD PLANT CYMRU 2018-19**

Rhagair gan

**Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AC
Prif Weinidog Cymru**



a

Julie Morgan AC,

Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



RHAGAIR

Fel llywodraeth, rydym yn croesawu adroddiad y Comisiynydd Plant ar gyfer 2018/19, sy'n dangos ei holl waith yn ystod y cyfnod hwn. Ar adeg o newid parhaus, mae ein hymrwymiad i hawliau plant yng Nghymru yn parhau i fod yn gadarn. Rydym yn cydnabod gwaith diflino'r Comisiynydd Plant fel hyrwyddwr annibynnol dros hawliau a llesiant plant. Mae'r Comisiynydd yn parhau i chwarae rôl werthfawr i sicrhau bod barn ein plant yn cael ei chlywed a'i bod yn eirioli ar eu rhan.


Yng Nghymru, rydym yn falch o'n hanes o hyrwyddo hawliau plant a gweithio i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, a hynny'n gwbl gyfiawn. Ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i sefydlu swydd Comisiynydd Plant i Gymru yn 2001.

Yn 2004, mabwysiadodd y Llywodraeth Cymru yr Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel sail ar gyfer ein gwaith gyda phlant. Rydym wedi ymgorffori hawliau plant yn gyfreithiol drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud trefniadau deddfwriaethol mor arwyddocaol er mwyn sicrhau lle canolog i hawliau plant ac mae'r dull gweithredu hwn yn parhau i ysgogi cynnydd ar hawliau plant yng Nghymru.

Mae ein gwaith i gyflwyno deddfwriaeth i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol yn enghraifft ymarferol iawn o'n hymrwymiad parhaol i hawliau plant. Mae hyn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i hawl plentyn i dyfu i fyny mewn amgylchedd diogel a magwrus. Mae hefyd yn deilwng y dylem wneud hynny eleni, sy'n nodi 30 mlynedd ers cyhoeddi CCUHP.


Yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2018-19, mae'r Comisiynydd Plant wedi gwneud 14 o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Fel llywodraeth, rydym yn falch ein bod yn gallu derbyn y mwyafrif o'r argymhellion hyn. Mae Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd wedi rhoi cyfle braf arall inni adolygu ein gwaith ar hawliau plant ac ystyried sut y gallwn barhau i wella.

Wrth inni ddathlu 30 mlynedd ers cyhoeddi CCUHP eleni, rwy'n hyderus y bydd ein hymrwymiad i Hawliau Plant yn parhau i gefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn.

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The letters are cursive and connected.

Mark Drakeford AM

First Minister of Wales

A handwritten signature in black ink that reads "Julie Morgan". The letters are cursive and connected.

Julie Morgan AM

Deputy Minister for Health and Social Services

Cynnwys

AMGYLCHEDD Y TEULU A GOFAL AMGEN	7
1. Gofal preswyl i blant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.....	7
2. Gadael gofal.....	8
3. Dileu'r elfen o elw o wasanaethau gofal plant.....	8
ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL	10
4. Addysg ddewisol yn y cartref.....	10
5. CCUHP yn y Cwricwlwm i Gymru.....	10
6. Bwlio.....	11
7. Anghenion dysgu ychwanegol.....	11
SAFON BYW SY'N DDIGONOL	13
8. Tlodi.....	13
9. Iechyd Meddwl a Llesiant.....	13
10. Trefniadau Pontio Iechyd.....	14
11. Eiriolaeth Iechyd.....	15

CYFLWYNIAD

Cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2018-19 ar 4 Hydref 2019. Gellir gweld yr adroddiad [yma](#).

Mae'r adroddiad yn nodi rhai o gyflawniadau allweddol swyddfa'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y cyflawniadau o ran blwyddyn olaf cynllun strategol tair blynedd y Comisiynydd ar gyfer 2016-19 (ar dudalen 11 o'r adroddiad).

Eleni, mae'r Comisiynydd wedi gwneud 14 o argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried ac ymateb iddynt. Mae'r argymhellion yn cynnwys amrywiaeth eang o feysydd ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Gofal preswyl
- Cymorth i bobl sy'n gadael gofal
- Mynd i'r afael â thlodi
- Diwygio'r Cwricwlwm
- Addysg ddewisol yn y cartref
- Bwlio
- Trefniadau pontio iechyd

Ceir crynodeb o'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd a'r prif ymateb gan Lywodraeth Cymru i bob un o'r argymhellion hyn yn Atodiad A.

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn nodi argymhellion y Comisiynydd yn eu tro, wedi'u dilyn gan brif ymateb Llywodraeth Cymru a mwy o fanylion yn nodi'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion.

AMGYLCHEDD Y TEULU A GOFAL AMGEN

1. Gofal preswyl i blant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

- a) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyllid newydd wedi'i neilltuo'n benodol at ddibenion darpariaeth breswyl iechyd meddwl a gofal cymdeithasol a gomisiynwyd ar y cyd, ar gyfer y nifer bach o blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.
- b) Dylai Llywodraeth Cymru weithredu hefyd i sicrhau bod yr unedau iechyd meddwl presennol i gleifion mewnol yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i estyn yr ystod o bobl ifanc sy'n gallu derbyn gofal yn ddiogel yno.
- c) Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i ddatblygu darpariaeth iechyd meddwl ddiogel yng Nghymru ar gyfer y nifer bach iawn o blant sydd angen y gofal hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

- a) Derbyn mewn egwyddor – Mae'r gwaith wedi dechrau a bydd yn parhau yn ystod 2020 i ddatblygu atebion ar gyfer trefniadau comisiynu ar y cyd. Bydd angen ystyried y goblygiadau i gyllid ond ar yr adeg hon mae'n aneglur a fydd angen cyllid ychwanegol a pha ddull cyllido a fyddai'n cael ei ddefnyddio.
- b) Derbyn mewn egwyddor – Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ac mae Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru yn ymgynghori ar fanyleb gwasanaeth newydd ar gyfer unedau Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) i gleifion mewnol. Fodd bynnag, mae ond yn deg i'r fanyleb ymestyn i'r plant hynny y gellir ond diwallu eu hanghenion mewn ysbyty iechyd meddwl i gleifion mewnol.
- c) Derbyn mewn egwyddor – Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda yn y maes hwn er mwyn llywio pa ddarpariaeth sydd ei hangen. Mae hyn yn cynnwys mewnbwn gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ofal Preswyl i Blant, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, adolygiad y Rhwydwaith Anhwylerau Bwyta o Unedau Haen 4 i Gleifion Mewnol a Rhaglen estynedig Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc. Bydd y trydydd Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, sef yr un olaf, yn cynnwys camau gweithredu i gynnal archwiliad o'r ddarpariaeth ddiogel ar gyfer cleifion mewnol a datblygu strategaeth ddiogel ar gyfer iechyd meddwl cleifion mewnol.

2. Gadael gofal

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

- a) Dylai Llywodraeth Cymru newid y deddfwriaeth a'r canllawiau ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i sicrhau bod pawb sy'n gadael gofal â hawl i gael Ymgynghorydd Personol hyd at 25 oed.
- b) Dylai Llywodraeth Cymru wneud cynnydd mwy pendant i estyn hawliau'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' er mwyn darparu lefel gyfatebol o gefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl. Dylid sicrhau hyn ar lefel statudol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

- a) Derbyn – Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth Ymgynghorwyr Personol o ran rhoi cyngor a chymorth i bobl sy'n gadael gofal. Byddwn yn deddfu i sicrhau bod hawl gan bobl sy'n gadael gofal i gael Ymgynghorydd Personol hyd at 25 oed pan fydd cyfrwng deddfwriaethol priodol yn codi.
- b) Derbyn mewn egwyddor – Yn 2017-18, gwnaethom ddarparu £9m o gyllid rheolaidd ar gyfer Gwasanaethau Plant, y dynodwyd £1m ohono at ddiben galluogi awdurdodau lleol i ymestyn cymorth Ymgynghorwyr Personol.

Yn 2017/18, talodd y cyllid hwn am 20 o Ymgynghorwyr Personol ledled Cymru, a'r canlyniad oedd bod mwy na 500 o ymadawyr gofal wedi manteisio ar y cynnig i gael cymorth estynedig hyd at 25 oed.

3. Dileu'r elfen o elw o wasanaethau gofal plant

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

- a) Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gymryd camau pendant o fewn y flwyddyn nesaf at leihau ac yn y pen draw ddileu elw o wasanaethau gofal plant, heb niweidio trefniadau gofal presennol plant a phobl ifanc.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

- a) Derbyn mewn egwyddor – Mae ailgydbwyso'r sector gofal cymdeithasol tuag at fwy o ddarpariaeth gan y sector cyhoeddus/mentrau cymdeithasol yn un o flaenoriaethau Prif Weinidog Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar hyn o bryd er mwyn pennu dull ailgydbwyso.

Fel rhan o'n hymdrechion i ailgydbwyso'r sector, mae gwaith yn mynd rhagddo o dan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol i recriwtio mwy o ofalwyr maeth gan awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £100k yn 2019-20 er mwyn datblygu adnoddau i hyrwyddo brand 'Maethu Cymru' newydd ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol, a fydd yn gweithredu fel porth marchnata a recriwtio ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn darparu dau o bob tri gofalwr maeth, a'r nod yw cynyddu nifer a chyfran y gofalwyr maeth yn y sector cyhoeddus.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

4. Addysg ddewisol yn y cartref

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

- a) Rhaid i Lywodraeth Cymru roi canllawiau statudol ar waith, gan fodloni fy nhri phrawf yn llawn yn 2020, er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu ble bynnag y maen nhw'n cael eu haddysg.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

- a) Derbyn – Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhelliad y Comisiynydd.

Ymgynghorwyd ar ganllawiau statudol newydd ar gyfer awdurdodau lleol ar addysg yn y cartref am 12 wythnos rhwng 31 Gorffennaf a 21 Hydref 2019. Diben ein cynigion yw sicrhau bod plant a addysgir gartref yn cael addysg addas ac mae'r canllawiau yn atgyfnerthu'r opsiynau sydd ar gael i awdurdodau lleol os ydynt yn credu nad yw hyn yn digwydd. Bydd hyn yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i ffynnu a gwireddu eu potensial.

Cafwyd 471 o ymatebion i'r ymgynghoriad y bydd angen i swyddogion eu hystyried yn fanwl. Y bwriad yw cyhoeddi hyn yn y Canllawiau Statudol ochr yn ochr â'r Rheoliadau yn 2020.

5. CCUHP yn y Cwricwlwm i Gymru

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

- a) Er mwyn sicrhau ymrwymiad parhaol i hawliau dynol plant dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dyletswydd ar yr holl gyrrff perthnasol i roi sylw dyledus i CCUHP wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Dylid gosod y ddyletswydd hon ar wyneb bil y Cwricwlwm ac Asesu.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

- a) Gwrthod – Nid yw safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch cynnwys darpariaethau hawliau plant yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) wedi newid – ni fwriedir cynnwys Dyletswydd i Roi Sylw Dyledus yn CCUHP ar wyneb y Bil.

Mae hawliau plant yn cael lle blaenllaw yn ein huchelgeisiau ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru, ac mae swyddfa'r Comisiynydd Plant wedi chwarae

rhan fawr yn y broses o ddatblygu Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Y bwriad yw gwneud y Datganiadau am Yr Hyn sy'n Bwysig yn statudol, a bydd y seiliau rhesymegol cysylltiedig yn cyfeirio at hawliau plant. Mae'r canllawiau cyffredinol hefyd yn cael eu mireinio er mwyn gwella'r canllawiau a ddarperir ar addysg hawliau dynol a bydd yn cyfeirio'n uniongyrchol at hawliau plant a CCUHP.

6. Bwlio

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

- a) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hunanwerthuso ysgolion yn ymgorffori cofnod o'r holl achosion a mathau o fwlio yr adroddir amdanynt. Dylai fod disgwyl i ysgolion ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio, monitro a gwerthuso'u gwaith gwrth-fwlio ataliol ac ymatebol, yn unol â'r dull gweithredu a ddisgrifiwyd yn Parchu Eraill ar ôl ei ailddrafftio, a dylai effaith hynny gael ei asesu fel rhan o arolwg ysgol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

- a) Derbyn – Cyhoeddwyd y canllawiau gwrth-fwlio statudol newydd, sef "Hawliau, Parch, Cydraddoldeb", ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol ar 6 Tachwedd 2019 ac maent yn cynnwys cyfrifoldebau adrodd a monitro. Fel rhan o bob arolygiad mae Estyn bob amser yn ystyried trefniadau gwrth-fwlio'r ysgol.

7. Anghenion dysgu ychwanegol

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

- a) Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn berthnasol i bobl ifanc hyd at 25 oed. Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod dyletswydd statudol sy'n gofyn bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n dod o dan y Ddeddf yn derbyn trafndiaeth ddiogel i'w safle addysg.

Felly, dylai Llywodraeth Cymru, ailystyried eu hymateb i fy argymhelliad o fy adroddiad blynyddol 2015/16 i adolygu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ag unrhyw ddarpariaeth a chanllawiau statudol cysylltiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

- a) Gwrthod – Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bryderon y Comisiynydd Plant ac yn cydnabod bod hwn yn fater trawslywodraethol. Mae grŵp trawslywodraethol gyda chynrychiolwyr o feysydd addysg, gwasanaethau

cymdeithasol a thrafnidiaeth yn ystyried sut i ddarparu cludiant mewn ffordd sy'n addas, yn gynaliadwy ac yn briodol er mwyn diwallu anghenion unigol.

Cyhoeddodd Lee Waters, AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg, Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, [Ddatganiad Ysgrifenedig](#) ar 13 Tachwedd a nododd fod y ddeddfwriaeth bresennol o ran trefniadau teithio dysgwyr yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol statudol yn seiliedig ar bellter, galluedd a diogelwch yn gweithio'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, maent yn cydnabod y pryderon i ddysgwyr ôl-16 oed lle mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn dros drefniadau teithio.

Mae'r Gweinidogion wedi cytuno i fwrw ymlaen ag adolygiad i nodi'r materion dan sylw a ffyrdd o'u datrys mewn ffordd sy'n gosteffeithiol ac yn gynaliadwy.

Bydd yr adolygiad yn drawsadrannol ac mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu rhaglen waith ar gyfer hyn.

SAFON BYW SY'N DDIGONOL

8. Tlodi

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

- a) Mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd argymhellion yr adroddiad Siarter ar gyfer Newid i ystyriaeth, a chyhoeddi cynllun cyflawni yn nodi'n fanwl sut bydd adrannau ar draws y Llywodraeth yn cymryd camau ymarferol i liniaru effaith tlodi plant a mynd i'r afael ag e.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

- a) Derbyn mewn egwyddor – Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gwneud gwaith a fydd yn llywio ein dull o fynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldeb yn y dyfodol.

Mae'n amserol i Lywodraeth Cymru adolygu ein dull presennol ac ystyried sut y gallwn fynd i'r afael â thlodi mewn ffordd sy'n fwy tosturiol ac yn canolbwyntio ar y dinesydd. Mae nifer o weithgareddau cydgysylltiedig penodol sydd eisoes ar waith sy'n ategu'r dull gweithredu hwn:

- Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn arwain adolygiad o raglenni cyllido Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf bosibl ar fywydau plant sy'n byw mewn tlodi.
- Bydd yr adolygiad hwn yn para am chwe mis a bydd yn ceisio nodi'r polisiau a'r rhaglenni sy'n gweithio'n dda yn ogystal â'r meysydd lle dylem wneud mwy.
- Bydd y gwaith hwn yn helpu i lywio'r ffordd rydym yn blaenoriaethu ein cyllid i gefnogi rhaglenni yn y dyfodol.
- Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yw arweinydd y Cabinet dros thema drawsbynciol tlodi mewn cysylltiad â'n proses cynllunio cyllideb ar gyfer 2020-21, ac mae'r gwaith hwn yn cysylltu â'r weithgareddau a amlinellwyd uchod ac yn eu llywio.
- O ran y cais am Gynllun Cyflawni, bydd gennym ddealltwriaeth well o'r ffordd orau o fwrw ymlaen â'r blaenoriaethau a nodir gan y gwaith hwn, a'u rhannu, ar ôl iddo gael ei gwblhau.
- Yn y cyfamser, rydym wedi ymrwymo i lunio ffeithlen sy'n amlinellu'r rhaglenni hynny sy'n ein helpu i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru.

9. Iechyd Meddwl a Llesiant

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

- a) Dylai Llywodraeth Cymru weithio ar frys i sefydlu trefniadau dilyniant ar gyfer y gwaith pwysig sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd trwy'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

- a) Derbyn – Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r rhaglen hon ers sawl mis i gefnogi'r broses hon, yn enwedig yng nghyd-destun y trefniadau newydd a sefydlwyd ers dechrau'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, er enghraifft Bwrdd y Rhwydwaith Iechyd Meddwl a'r rhaglen Dull Ysgol Gyfan. Mae'r rhaglen Dull Ysgol Gyfan yn rhaglen waith ar y cyd i ddatblygu dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol plant a phobl ifanc.

Rydym wedi cytuno mewn egwyddor i barhad rhaglen â ffocws newydd .

10. Trefniadau Pontio Iechyd

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

- a) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod byrddau iechyd yn cael canllawiau effeithiol fydd yn arwain at blant a phobl ifanc yn cael mynediad i lwybrau amlasiantaeth cydlynus ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion. Dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys yn uniongyrchol wrth greu eu cynlluniau gofal.

Dylai'r canllawiau hyn sicrhau hefyd bod pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n cael mynediad i wasanaethau iechyd am y tro cyntaf, gan gynnwys gofal brys, yn cael llwybr clir at ofal oed-briodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

- a) Derbyn – Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n llunio canllawiau diwygiedig ar bontio a throsglwyddo rhwng gwasanaethau iechyd plant a gwasanaethau iechyd oedolion, gyda'r nod o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos yn dechrau ym mis Ionawr. Cyhoeddir y canllawiau'n ffurfiol o dan Gylchlythyr Iechyd Cymru yng Ngwanwyn 2020.

Bydd y canllawiau'n cwmpasu plant a phobl ifanc sydd wedi bod yn cael gofal iechyd ers cryn amser yn ogystal â'r rhai y mae angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd am y tro cyntaf rhwng 16 ac 17 oed a byddant yn cael eu llunio ar y cyd â mewnbwn gan glinigwyr, grwpiau ieuencid a swyddfa'r Comisiynydd Plant. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys fersiwn o'r ddogfen ddrafft i blant a phobl ifanc a'r bwriad yw cyhoeddi fersiwn o'r ddogfen derfynol i blant a phobl ifanc hefyd.

11. Eiriolaeth Iechyd

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

- a) Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu safonau cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth cysylltiedig â iechyd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd angen hynny, a monitro cynnydd byrddau iechyd tuag at gomisiynu eiriolaeth ddigonol, a'u gwaith yn ei hyrwyddo.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

- a) Derbyn – Mae swyddogion yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i lunio cyfres o egwyddorion lefel uchel ar gyfer eiriolaeth mewn lleoliadau iechyd a bydd disgwyl i bob bwrdd iechyd gydymffurfio â nhw. Mae aelodau'r grŵp hwn yn cael eu cadarnhau, ond byddant yn cynnwys cynrychiolwyr o fyrddau iechyd a grwpiau eiriolaeth amrywiol, yn ogystal â swyddfa'r Comisiynydd Plant a grwpiau ieuenctid.

Atodiad A – Crynodeb o Ymateb Llywodraeth Cymru

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
1(a)	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyllid newydd wedi'i neilltuo'n benodol at ddibenion darpariaeth breswyl iechyd meddwl a gofal cymdeithasol a gomisiynwyd ar y cyd, ar gyfer y nifer bach o blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.	Derbyn mewn egwyddor
1(b)	Dylai Llywodraeth Cymru weithredu hefyd i sicrhau bod yr unedau iechyd meddwl presennol i gleifion mewnol yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i estyn yr ystod o bobl ifanc sy'n gallu derbyn gofal yn ddiogel yno.	Derbyn
1(c)	Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i ddatblygu darpariaeth iechyd meddwl ddiogel yng Nghymru ar gyfer y nifer bach iawn o blant sydd angen y gofal hwn.	Derbyn
2(a)	Dylai Llywodraeth Cymru newid y ddeddfwriaeth a'r canllawiau ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i sicrhau bod pawb sy'n gadael gofal â hawl i gael Ymgynghorydd Personol hyd at 25 oed.	Derbyn
2(b)	Dylai Llywodraeth Cymru wneud cynnydd mwy pendant i estyn hawliau'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' er mwyn darparu lefel gyfatebol o gefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl. Dylid sicrhau hyn ar lefel statudol.	Derbyn mewn egwyddor
3	Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gymryd camau pendant o fewn y flwyddyn nesaf at leihau ac yn y pen draw ddileu elw o wasanaethau gofal plant, heb niweidio trefniadau gofal presennol plant a phobl ifanc.	Derbyn
4	Rhaid i Lywodraeth Cymru roi canllawiau statudol ar waith, gan fodloni fy nhri phrawf yn llawn yn 2020, er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu ble bynnag y maen nhw'n cael eu haddysg.	Derbyn
5	Er mwyn sicrhau ymrwymiad parhaol i hawliau dynol plant dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dyletswydd ar yr holl gyrff perthnasol i roi sylw dyledus i CCUHP wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Dylid gosod y ddyletswydd hon ar wyneb bil y Cwricwlwm ac Asesu.	Gwrthod
6	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hunanwerthuso ysgolion yn ymgorffori cofnod o'r holl achosion a mathau o fwlio yr adroddir amdanynt. Dylai fod disgwyl i ysgolion ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio, monitro a gwerthuso'u gwaith gwrth-fwlio ataliol ac ymatebol, yn unol â'r dull gweithredu a ddisgrifiwyd yn Parchu Eraill ar ôl ei ailddrafftio, a dylai effaith hynny gael ei asesu fel rhan o arolwg ysgol.	Derbyn

7	<p>Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynlys Addysg (Cymru) 2018 yn berthnasol i bobl ifanc hyd at 25 oed. Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod dyletswydd statudol sy'n gofyn bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n dod o dan y Ddeddf yn derbyn trafndiaeth ddiogel i'w safle addysg.</p> <p>Felly, dylai Llywodraeth Cymru, ailystyried eu hymateb i fy argymhelliad o fy adroddiad blynyddol 15/16 i adolygu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ag unrhyw ddarpariaeth a chanllawiau statudol cysylltiol.</p>	Gwrthod
8	<p>Mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd argymhellion yr adroddiad Siarter ar gyfer Newid i ystyriaeth, a chyhoeddi cynllun cyflawni yn nodi'n fanwl sut bydd adrannau ar draws y Llywodraeth yn cymryd camau ymarferol i liniaru effaith tlodi plant a mynd i'r afael ag e.</p>	Derbyn
9	<p>Dylai Llywodraeth Cymru weithio ar frys i sefydlu trefniadau dilyniant ar gyfer y gwaith pwysig sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd trwy'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.</p>	Derbyn
10	<p>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod byrddau iechyd yn cael canllawiau effeithiol fydd yn arwain at blant a phobl ifanc yn cael mynediad i lwybrau amlasiantaeth cydlynus ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion. Dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys yn uniongyrchol wrth greu eu cynlluniau gofal.</p> <p>Dylai'r canllawiau hyn sicrhau hefyd bod pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n cael mynediad i wasanaethau iechyd am y tro cyntaf, gan gynnwys gofal brys, yn cael llwybr clir at ofal oed-briodol.</p>	Derbyn
11	<p>Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu safonau cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth cysylltiedig â iechyd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd angen hynny, a monitro cynnydd byrddau iechyd tuag at gomisiynu eiriolaeth ddigonol, a'u gwaith yn ei hyrwyddo.</p>	Derbyn